COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD GWENER, 13 MEHEFIN 2025 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G John – Cadeirydd

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | E L P Caparros | H Griffiths | S J Griffiths |
| JC Spanswick | B Stephens | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies a/ac J Lynch-Wilson

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Dean Jones | Accountant - Financial |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Chris Morris | Accountant |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 61. Ethol Cadeirydd (o blith Aelodau Cyngor Bro Morgannwg)

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Enwebwyd y Cynghorydd Gwyn John yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mehefin 2025 |

## 62. Ethol Is-gadeirydd (o blith Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Enwebwyd y Cynghorydd Eugene Caparros yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mehefin 2025 |

## 63. Cymeradwyo’r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod dyddiedig ... fel cofnod gwir a chywir, ar yr amod fod yr amser gorffen yn cael ei gywiro o 10:50 i 14:50. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mehefin 2025 |

## 64. Adolygiad Blynyddol o Amcanion Cynllun Busnes 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am berfformiad Amlosgfa Llangrallo o ran y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | Nifer yr amlosgiadau - Bu cyfanswm o 1,479 o amlosgiadau, oedd yn nodi dychwelyd i lefelau arferol ar ôl gostyngiad yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o amlosgiadau o Ben-y-bont ar Ogwr, Bro Morganwg, Rhondda Cynon Taf, ac ardaloedd y tu allan.<br><br>Safonau gwasanaeth - Yn seiliedig ar adborth y cyhoedd, cynhaliodd yr amlosgfa lefel foddhad gyffredinol o 100% (wedi'i graddio'n dda neu'n rhagorol). Roedd sylwadau cadarnhaol yn canmol proffesiynoldeb y staff yn benodol ac estyniad newydd y cwrt blodau.<br><br>Gwariant wedi'i gynllunio - Roedd y gwaith cyfalaf pennaf ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys gwariant o £53,000 ar lwybrau newydd i wella mynediad at wahanol ardaloedd coffa.<br><br>Cyflawni amcanion y Cynllun Busnes - Cwblhawyd nifer o orchwylion cynnal a chadw, mwy o faint, yn llwyddiannus a chawsant eu hariannu o'r gyllideb refeniw, gan gynnwys ailaddurno'r Capel Coffa a glanhau'r gwaith cerrig allanol yn broffesiynol. Ychwanegodd fod yr amlosgfa yn parhau i fod yn hunangynhaliol yn ariannol, fel yr amlinellwyd yn ei strategaeth gyllidebol.<br><br>Roedd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd yn falch o gyhoeddi bod yr Amlosgfa wedi ennill ei 15fed gwobr baner werdd, oedd wedi cael ei hennill bob blwyddyn am y 15 mlynedd ddiwethaf.<br><br>Holodd Aelod ynghylch yr oedi yn amseroedd y gwasanaethau a pham y gallai gael ei ystyried yn gyfyngedig. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd fod hyn i bob golwg yn dibynnu mwy ar argaeledd y cyfarwyddwyr angladdau yn hytrach nag ar argaeledd yr amlosgfa, ac roedd hyn yn arbennig o anodd ei gyfleu i aelodau'r cyhoedd ond eu bod wedi ceisio gwella'r neges hon pan fyddai'r pwnc yn codi.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurder ynghylch nifer yr amlosgiadau uniongyrchol y mae'r amlosgfa'n eu cynnal, yn hytrach na'r amlosgiadau mwy cyffredin a gynhelir fel angladdau. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd, mai 1 amlosgiad uniongyrchol yr wythnos oedd yna ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn fel arfer.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>Argymell bod y Cyd-bwyllgor yn nodi'r adroddiad.<br><br>Cytunodd yr aelodau y dylid ystyried yr incwm buddsoddi yn y gyllideb nesaf. Awgrymwyd hefyd greu cynllun ariannu cyfalaf tymor hir (5-10 mlynedd). |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mehefin 2025 |

## 65. Datganiad Cyfrifon Blynyddol 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Cyfrifydd – Ariannol adroddiad oedd yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon Blynyddol heb eu harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Gofynnodd hefyd am gymeradwyaeth i gyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo i Archwilio Cymru.<br><br>Darparodd y Cyfrifydd - Ariannol grynodeb a dywedodd fod yr amlosgfa wedi cyflawni gwarged net o £615,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-2025. Roedd hwn yn amrywiant cadarnhaol sylweddol, gan ddod i mewn £359,000 yn uwch na'r gwarged a gyllidebwyd o £256,000.<br><br>O ganlyniad i'r gwarged, cynyddodd cronfeydd wrth gefn yr amlosgfa o £2,083,000 i £2,698,000.<br><br>Dywedodd fod y prif resymau dros y gwarged fel a ganlyn:<br><br>• Tanwariant o £147,000 mewn costau eiddo (yn bennaf oherwydd costau cynnal a chadw a chyfleustodau is na'r disgwyliad).<br><br>• Tanwariant o £84,000 ar gyflenwadau a gwasanaethau.<br><br>• Incwm buddsoddi annisgwyl o £105,000.<br><br>Gofynnodd Aelod am esboniad ar y tanwariant mawr (50% o'r gyllideb) mewn costau gweinyddu. Esboniodd y Cyfrifydd – Ariannol fod hyn oherwydd addasiad diwedd blwyddyn ar gyfer costau ailgodi tâl a chynigiodd ddarparu dadansoddiad llawn drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Gofynnodd Aelod ar ba bwynt y câi'r gwarged ei ystyried yn rhy uchel, ac a oedd modd iddo ysgogi gostyngiad mewn ffioedd amlosgi neu ddosbarthu arian i'r cynghorau partner.<br><br>Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd fod y gwarged yn hanfodol ar gyfer sicrhau hunangynhaliaeth hirdymor yr amlosgfa. Nododd y byddai prosiectau mawr yn y dyfodol, megis |

| | |
|---|---|
| | newid yr amlosgfeydd ac atgyweirio systemau ffordd, yn lleihau'r cronfeydd wrth gefn yn sylweddol. Mae'r memorandwm cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw warged gael ei ailfuddsoddi yn y cyfleuster.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo ar gyfer 2024-25 (Atodiad 1), ac yn gofyn i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor lofnodi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mehefin 2025 |

## 66. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mehefin 2025 |

I weld rhagor o’r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen yma

Daeth y cyfarfod i ben am 14:41